



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Fframwaith Ansawdd a Diogelwch:

Dysgu a Gwella

Llywodraeth Cymru 2021

RHAGAIR

Yn 2016, dywedodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) fod ansawdd wrth galon y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Cafodd y pwynt hwn ei bwysleisio unwaith yn rhagor pan gyhoeddwyd Cymru Iachach, gydag ansawdd a diogelwch yn cael eu hamlygu fel blaenoriaeth cyn popeth arall. Fel dinesydd yng Nghymru, rwy'n cydnabod pa mor allweddol bwysig yw gallu manteisio ar wasanaeth diogel ac effeithiol, sy'n rhoi profiad rhagorol i'r defnyddiwr.

Er gwaetha'r cynnydd a wnaed o ran sefydlu'r GIG fel system sy'n cael ei harwain gan ansawdd, mae mwy i'w wneud eto. Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ei phasio gan aelodau'r Senedd y llynedd er mwyn cyflwyno Dyletswydd Ansawdd a Dyletswydd Gonestrwydd wedi'u cryfhau ar gyfer y GIG yng Nghymru, ac i greu Corff Llais y Dinesydd i gryfhau llais y bobl. Y ddeddfwriaeth hon, ynghyd â'r angen i ddysgu o fethiannau system diweddar yn y GIG, ac adfer yn sgil pandemig COVID-19 yw'r prif ysgogiadau ar gyfer datblygu'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch hwn.

Mae'r Fframwaith yn dweud y dylai sefydliadau ar bob lefel weithredu fel system rheoli ansawdd i sicrhau bod chwe maes ansawdd yn cael eu bodloni wrth ddarparu gofal: gofal sy'n ddiogel, sy'n effeithiol, sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n amserol, sy'n effeithlon ac sy'n deg.

Mae'n nodi'r angen am fframwaith sicrhau ansawdd cadarn sy'n dod â'r holl wybodaeth ynghylch ansawdd ynghyd er mwyn ei defnyddio i gyflawni newid a gwelliannau effeithiol mewn gofal.

Pandemig COVID-19 yw'r her fwyaf i'r GIG ei hwynebu ers iddo gael ei greu gan Aneurin Bevan, ac mae ein gweithlu wedi ymateb yn y ffyrdd mwyaf anhygoel. Fodd bynnag, er gwaetha'r ymdrechion hyn, mae'r clefyd newydd hwn wedi achosi niwed y gellid bod wedi'i osgoi, a bydd yn parhau i wneud hynny oni bai bod ansawdd a diogelwch yn cael lle canolog wrth inni fwrw ati gyda'r adferiad. Mae arloesi a thrawsnewid fel rhan o'r adferiad hwn yn un o'm prif flaenoriaethau, ac mae'r chwe maes ansawdd yn darparu fframwaith inni ar gyfer cyflawni hyn.

Bydd Rhaglen Ansawdd a Diogelwch a oruchwylir gan Fwrdd Ansawdd a Diogelwch Cenedlaethol newydd yn cael ei datblygu i ysgogi'r camau gweithredu lefel uchel a ddisgrifir yn y Fframwaith hwn. Bydd y Bwrdd yn hwyluso arweinyddiaeth glinigol gadarn gyda dull amlddisgyblaethol i helpu i ysgogi sefydliadau'r GIG yng Nghymru ar eu taith tuag at fod yn gyrrff sydd wirioneddol yn cael eu harwain gan ansawdd.

Nawr, efallai'n fwy nag erioed o'r blaen yn hanes y GIG, rhaid inni sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n ddi-ildio ar ansawdd a diogelwch, ac mai hyn fydd yn cael blaenoriaeth cyn popeth arall. Dylai hyn fod wrth wraidd unrhyw benderfyniadau ynghylch materion gofal y boblogaeth a'r broses o gynllunio gwasanaethau. Rwy'n falch o gymeradwyo'r fframwaith hwn a byddaf yn buddsoddi mewn Rhaglen Ansawdd a Diogelwch gyda'r nod o sicrhau bod ein GIG yn cael ei ysgogi gan ansawdd.

Eluned Morgan, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Diben y ddogfen

Un o nodau cyffredinol y GIG yw gwella canlyniadau i bobl, ni waeth pwy ydynt na ble maent yn byw, trwy sicrhau bod pobl yn gallu cael iechyd a gofal o'r radd flaenaf, a hynny trwy gyfrwng diwylliant cynaliadwy o ddysgu a gwella.

Er bod ansawdd iechyd a gofal yn cael ei gydnabod yn eang, gall fod yn anodd ei ddiffinio. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig trosolwg o sut beth yw ansawdd, a hefyd mae'n tynnu sylw at yr egwyddorion allweddol sy'n sail iddo a'r trefniadau y mae angen iddynt fod ar waith er mwyn sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel bob amser. Bydd angen canolbwyntio'n fanwl ar ansawdd a diogelwch wrth inni ddod allan o'r pandemig Covid-19, gan geisio deall y gwir niwed sydd wedi digwydd yn ystod y deunaw mis diwethaf a sicrhau, wrth symud ymlaen, ein bod yn diwallu anghenion ein poblogaeth.

Caiff nifer o feysydd yn y GIG eu cydnabod fel rhai sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd eithriadol o uchel. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig canllawiau a chyfarwyddyd i holl sefydliadau'r GIG, ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod system rheoli ansawdd gref ar waith ar bob lefel, rhywbeth a fydd, yn ei dro, yn lleihau amrywiad o ran ansawdd. Mae hyn yn hollbwysig o ran gwireddu'r dyheadau a nodir yn Cymru Iachach ar gyfer cael GIG seiliedig ar ansawdd yng Nghymru, ac mae'n hollbwysig hefyd o ran paratoi ar gyfer bodloni disgwyliadau'r ddyletswydd ansawdd newydd a chryfach.

Mae gan bawb rôl yn y dasg o wella ansawdd, a dengys y fframwaith yr elfennau y mae angen iddynt fod ar waith er mwyn sicrhau bod llais pawb yn cael ei glywed. Mae'r ddogfen hon yn disodli Cynllun Sicrhau Ansawdd Llywodraeth Cymru o fethiannau diweddar yn systemau Cymru, yn ogystal â phandemig y coronafeirws a'i botensial cysylltiedig i greu niwed. Mae hefyd yn gam ar y ffordd tuag at y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd a ddisgwylir yn 2023.

1. Cyd-destun a chefnidir

1.1 Cefndir strategol

Mae [Cymru Iachach](#) yn nodi gweledigaeth hirdymor, sef y dylai pawb yng Nghymru gael bywydau hirach, iachach a hapusach. Mae'n cynnig dull system gyfan o ymdrin ag iechyd a gofal cymdeithasol – dull teg lle caiff gwasanaethau eu cynllunio ar gyfer unigolion a grwpiau ar sail eu hanghenion unigryw a'r hyn sy'n bwysig iddynt, yn ogystal â chanlyniadau ansawdd a diogelwch. Y gwerth craidd cyntaf a ddisgrifir yn Cymru Iachach ar gyfer GIG Cymru yw "Rhoi ansawdd a diogelwch uwchlaw popeth – darparu gofal gwerth uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ein cleifion bob amser."

Mae sefydliadau gofal iechyd yng Nghymru yn canolbwyntio ar fodloni nod pedwarplyg, sef gwella iechyd a lles y boblogaeth, gwella profiadau personol o ofal,

sicrhau'r gwerth gorau o ran adnoddau, a sicrhau gweithlu brwd ac ymroddedig. Mae ein hathroniaeth o iechyd a gofal darbodus sy'n seiliedig ar werthoedd, yn sail i hyn, a bydd yn parhau i fod yn nodwedd neilltuol ar system Cymru. Bydd [Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(Ansawdd ac Ymgysylltu\) \(Cymru\) 2020](#), sy'n gosod dyletswydd ansawdd uwch a dyletswydd gonestrwydd sefydliadol, yn cryfhau'r dull o sicrhau gofal diogel o ansawdd uchel.

Er mwyn gwireddu'r dyhead o gael gwasanaeth iechyd a gaiff ei arwain gan ansawdd, rhaid i bob sefydliad weithredu o fewn system rheoli ansawdd effeithiol. Mae'r Fframwaith Ansawdd a Diogelwch hwn yn disgrifio'r elfennau allweddol cydgysylltiol y mae'n ofynnol iddynt weithio gyda'i gilydd bob amser er mwyn sicrhau gwelliant parhaus mewn ansawdd, sef: cynllunio; gwella; a rheoli; ac er mwyn rhoi sicrwydd cyffredinol fod y system yn gweithio'n effeithiol i gyflawni'r canlyniadau y mae pob un ohonom yn dymuno'u cael i bobl Cymru.

Yn unol â'r cyfeiriad a bennir yn Cymru lachach, mae gwaith yn parhau ar ddwyn ynghyd yr agendâu ansawdd oddi mewn i iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar sefydliadau'r GIG yng Nghymru, gan gydnabod yn llwyr fod gweithio mewn partneriaeth yn hollbwysig i lwyddiant.

Mae'r [Fframwaith Clinigol Cenedlaethol](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnig dehongliad clinigol o Cymru lachach, ac mae'n disgrifio system iechyd a gofal sy'n dysgu, system gydol oes sydd wedi'i seilio ar lwybrau clinigol sy'n canolbwyntio ar y claf. Mewn blynyddoedd diweddar, roedd cynlluniau cyflawni ar gyfer cyflyrau iechyd difrifol wedi pennu disgwyliadau polisi ar gyfer gwasanaethau clinigol â blaenoriaeth uchel. Daeth y cynlluniau hyn i ben ym mis Rhagfyr 2020 ac fel y nodir yn y Fframwaith Clinigol Cenedlaethol, byddant yn cael eu disodli'n raddol gan Ddatganiadau Ansawdd. Bydd y trefniadau ar gyfer olynnydd hyn yn helpu i bennu'r hyn sydd, ym marn rhanddeiliaid, yn briodolledau ansawdd pwysig mewn meysydd clinigol â blaenoriaeth uchel, megis gwasanaethau canser, clefyd y galon a strôc; yn ogystal â gwasanaethau megis gofal critigol a gofal diwedd oes.

1.2 Adfer ar ôl y Pandemig COVID-19

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r GIG wedi wynebu'i her fwyaf ers ei sefydlu, a hynny ar ffurf y pandemig COVID-19 digyffelyb. Mae staff ac arweinwyr sefydliadau'r GIG wedi ymateb i'r her hon mewn modd anhygoel trwy ddatblygu ffyrdd newydd o weithio er mwyn cynorthwyo ein poblogaeth. Yn ystod y pandemig gwelsom enghreifftiau gwych o ofal ansawdd uchel, yn cynnwys ailhyfforddi staff a'u symud i'r meysydd risg uchaf, gwaith tîm a chyfathrebu effeithiol ac, uwchlaw popeth arall, trefniadau a ganolbwyntiai ar anghenion newydd a newidiol pobl.

Wrth inni ddod allan o'r pandemig, mae sefydliadau'r GIG yn ystyried sut i addasu gwasanaethau a dysgu o'r arferion arloesol a'r arweinyddiaeth glinigol eithriadol a welsom. Bydd ansawdd a diogelwch o'r pwys mwyaf yn y broses adfer hon, ac mae hi'n hanfodol i'r ffocws hwn ar ansawdd a diogelwch ddigwydd ar bob lefel. Bydd symptomau a risgiau ar lefelau hynod amrywiol yn dod i ran cleifion sy'n aros am driniaeth, felly rhaid i'r adnodd clinigol cyfyngedig sydd ar gael yn awr gael ei dargedu at y rhai sy'n debygol o gael y budd mwyaf. Er mwyn ennill a chynnal

dealltwriaeth a hyder y cyhoedd, bydd yn ofynnol cael dull cydgynhyrchiol o ymdrin â gofal clinigol a gwneud penderfyniadau.

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [Edrych tua'r dyfodol](#) er mwyn helpu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i ddod allan o'r pandemig. Yma, nodir mai'r her yw creu'r gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig y dymunwn ei gael wrth symud ymlaen a delio ag effeithiau hirdymor COVID-19. Newid er gwell yw'r nod, gan gydnabod bod COVID-19 gyda ni o hyd.

Agwedd allweddol ar yr adferiad hwn yw sicrhau bod gofal mor ddiogel â phosibl, a bod unrhyw niwed yn cael ei leihau. Y pedwar niwed a ddisgrifiwn mewn perthynas ag iechyd a gofal yng Nghymru yw:

1. Niwed uniongyrchol yn sgil COVID-19 ei hun
2. Niwed anuniongyrchol yn sgil COVID-19 oherwydd bod y system iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei gorlethu a bod llai o weithgarwch gofal iechyd o ganlyniad
3. Niwed yn sgil mesurau diogelu iechyd ar sail poblogaeth, hy niwed addysgol
4. Niwed economaidd o ganlyniad uniongyrchol ac anuniongyrchol i COVID-19, hy diweithdra yn sgil y cyfyngiadau ar symud
5. Niwed oherwydd bod anghydraddoldebau mewn cymdeithas yn gwaethygu neu am fod anghydraddoldebau newydd yn dod i'r amlwg

Yn ddi-os, mae niwed wedi dod i ran pobl a'u hanwyliaid o ganlyniad i'r pandemig; a phan ddaw hi'n fater o niwed yn sgil gofal iechyd, fe fydd meysydd fel trosglwyddiad nosocomiaidd a gohirio gofal iechyd oherwydd lleihad mewn gwasanaethau arferol, ynghyd â phobl yn ceisio peidio â gorlethu'r GIG, wedi arwain eisoes, neu'n arwain yn y misoedd nesaf, at niwed i rai unigolion.

Mae deall gwir lefel y niwed sydd wedi digwydd, neu'r niwed a all ddigwydd eto os na chymerir camau lliniaru, yn dasg sylweddol ond hynod bwysig wrth inni adfer ar ôl y pandemig. Yn anffodus, mewn rhai amgylchiadau bydd pobl wedi cael niwed ac o bosibl wedi marw, a rhaid inni sicrhau bod y gofal a roddwyd mewn achosion o'r fath yn cael ei adolygu'n drylwyr er mwyn deall a oedd modd atal y niwed o gwbl a hefyd er mwyn inni allu dysgu a sicrhau bod ein polisiau'n esblygu o ganlyniad (yn enwedig polisiau'n ymwneud â rheoli ac atal heintiau).

Cam Gweithredu 1: Dylai sefydliadau'r GIG sicrhau bod y niwed (uniongyrchol yn ogystal ag anuniongyrchol) sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 yn cael ei leihau. Dylai sefydliadau weithredu dull sy'n canolbwyntio ar risgiau a buddion wrth adfer gwasanaethau eraill, gan fesur, monitro a dysgu yn sgil unrhyw niwed.

Wrth symud ymlaen, bydd cyd-gynhyrchu gwasanaethau yn agwedd hollbwysig ar yr adferiad. Fel y nodir yn "Edrych tua'r dyfodol", rhaid inni adeiladu ar ffyrdd arloesol o gyflawni gwasanaethau, yn enwedig trwy ddefnyddio technoleg. Bydd hyn yn allweddol o ran gallu cadw mewn cysylltiad ag unigolion sy'n aros am driniaeth a sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith fel y bydd modd rhoi blaenoriaeth i'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf. Bydd angen pwysu a mesur, ynghyd â sicrhau bod unrhyw ymyriadau yn rhai gwerth uchel ac yn gwella canlyniadau i bobl.

1.3 Ansawdd yng Nghymru a'r Ddeddf Ansawdd ac Ymgysylltu (2020)

Rydym eisoes wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi yn ymwneud ag ansawdd yn y GIG yng Nghymru. Roedd y Cynllun Sicrhau Ansawdd (2012) blaenorol yn nodi camau ar gyfer ysgogi gwelliant parhaus mewn gwasanaethau a thryloywder, yn cynnwys cyflwyno Datganiadau Ansawdd Blynyddol. Yn 2013, cynigiwyd fframwaith llywodraethu cenedlaethol yn *'Darparu Gofal Diogel, Gofal Tosturiol'*. Mae'r fframwaith hwn yn adeiladu ar y dogfennau blaenorol hyn, ac yn eu disodli.

Yn ei [Adolygiad o Ansawdd Gofal Iechyd](#) a gyhoeddwyd yn 2016, dywedodd yr OECD fod ansawdd wrth galon a chraidd y system gofal iechyd yng Nghymru, ond cyflwynodd argymhellion i gryfhau'r hyn a oedd eisoes ar waith. Roedd yr argymhellion hyn yn cynnwys perthynas gryfach rhwng byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru, ynghyd ag atebolrwydd mwy gweladwy mewn byrddau iechyd, gyda'r gallu technegol, y gallu o ran rheolwyr a'r gallu o ran arweinwyr i wella safonau.

Ym mis Mehefin 2020, rhoddwyd cydsyniad brenhinol i ddeddfwriaeth newydd, sef Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno dyletswydd ansawdd newydd a roddir ar gyrff y GIG a Gweinidogion Cymru (o ran eu swyddogaethau cysylltiedig ag iechyd). Mae'r ddyletswydd gyfreithiol uwch hon yn nodi y dylai'r holl benderfyniadau a wneir gael eu gwneud er mwyn sicrhau gwelliant yn ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn y GIG yng Nghymru, ac er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn pwysleisio'r angen i sefydliadau fynd y tu hwnt i gynnal eu gwasanaethau'n unig, ac mae'n nodi y dylent anelu at welliant parhaus a rhagoriaeth, gan roi cymaint o bwyslais ar wella a diogelu iechyd ag a roddant ar reoli salwch.

Bydd ail-lunio'r ddyletswydd ansawdd yn y ffordd hon, gan symud y tu hwnt i'r ddyletswydd bresennol, yn newid ffocws penderfyniadau ac yn cynrychioli cam pellach ar y siwrnai tuag at safonau uwch fyth mewn gwasanaethau iechyd sy'n canolbwyntio ar unigolion yng Nghymru.

I atgyfnerthu'r pwyslais y dymunwn ei roi ar wasanaethau sy'n canolbwyntio ar unigolion a phwysigrwydd profiad cleifion fel modd o bennu gwasanaeth o ansawdd, mae'r Ddeddf yn mynd ati'n benodol i nodi bod profiad cleifion yn elfen graidd o'r ddyletswydd ansawdd newydd.

Ymhellach, rhaid i sefydliadau ystyried [Safonau Iechyd a Gofal](#) Llywodraeth Cymru wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd ansawdd. Bwriad y fframwaith safonau hwn yw cynorthwyo'r GIG a phartner-sefydliadau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd ym mhob lleoliad gofal iechyd. Mae'r safonau yma'n nodi'r hyn y gall pobl Cymru ei ddisgwyl pan fyddant yn defnyddio gwasanaethau iechyd.

Diweddarwyd y safonau hyn ddiwethaf yn 2015, ac er mwyn sicrhau eu bod yn cydfynd â'r ddyletswydd ansawdd newydd byddant yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn awr.

Cam Gweithredu 2: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i adolygu a diweddarau'r safonau Iechyd a Gofal, gan adlewyrchu'r ddyletswydd ansawdd gryfach.

Mae'r ddyletswydd ansawdd yn nodi ei bod hi'n ofynnol i sefydliadau'r GIG ymrwymo i welliannau, yn ogystal â chyflawni gwelliannau, yn ansawdd gwasanaethau iechyd. Bydd yn ofynnol i sefydliadau'r GIG gyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi'r camau a gymerwyd ganddynt i sicrhau'r gwelliannau hyn, a chynnwys asesiad yn nodi i ba raddau y cyflawnwyd unrhyw welliannau mewn canlyniadau. Bydd yr adroddiad newydd hwn yn disodli'r Datganiad Ansawdd Blynyddol presennol.

Ymhellach, am y tro cyntaf bydd hi'n ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno'u hadroddiad blynyddol eu hunain i Senedd Cymru ynglŷn â'r camau a gymerwyd ganddynt i sicrhau gwelliannau a fydd yn arwain at ofal o ansawdd gwell i boblogaeth Cymru. Mae rhaglen waith ar y gweill er mwyn paratoi ar gyfer gweithredu'r ddyletswydd newydd.

Yn ogystal â dyletswydd ansawdd, mae Deddf 2020 hefyd yn cyflwyno dyletswydd gonestrwydd newydd ar sefydliadau. Bydd y ddyletswydd yn berthnasol i sefydliadau'r GIG, darparwyr gofal sylfaenol mewn perthynas â gwasanaethau'r GIG, a darparwyr gofal iechyd annibynnol. Bydd y ddyletswydd yn berthnasol pan fo canlyniad anffafriol wedi dod i ran unigolyn a gafodd ofal iechyd, a phan oedd neu y gallai'r ddarpariaeth gofal iechyd fod yn ffactor yn y canlyniad anffafriol hwnnw. Yn y cyd-destun hwn, bydd canlyniad anffafriol yn golygu bod yr unigolyn wedi dioddef, neu y gallai ddioddef, niwed annisgwyl neu anfwriadol sy'n fwy na niwed bach iawn.

Mae cysylltiad clir rhwng gonestrwydd ac ansawdd gwasanaethau. Ceir tystiolaeth fod bod yn fwy agored, yn fwy tryloyw ac yn fwy gonest yn gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol o ansawdd uwch. Mae sefydliadau a chanddynt ddiwyllianau agored a thryloyw yn fwy tebygol o dreulio amser yn dysgu o ddigwyddiadau, ac maent yn fwy tebygol o fod â phrosesau a systemau ar waith i gynorthwyo staff a defnyddwyr gwasanaethau os aiff pethau o'u lle. Mae hyn yn hollbwysig mewn lleoliad iechyd a gofal lle mae gan gleifion berthnasoedd parhaus yn aml â'u darparwyr iechyd a gofal. Yn gyffredinol, mae cleifion a defnyddwyr gwasanaethau eisiau cael gwybod y gwir am yr hyn a ddigwyddodd, a chael sicrwydd bod popeth yn cael ei wneud i ddysgu o'r hyn a aeth o'i le.

Bydd gosod dyletswydd gonestrwydd ar sefydliadau'r GIG, yn cynnwys darparwyr gofal sylfaenol, yn gwella profiad y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau, yn ogystal â gwella cyfathrebu ac ymgysylltu rhwng y GIG a defnyddwyr y gwasanaethau. Bydd yn adeiladu ar y gwaith sydd eisoes wedi'i wneud trwy gyfrwng trefniadau [Gweithio i Wella](#) ar gyfer delio â phryderon, cwynion a digwyddiadau.

Cam Gweithredu 3: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar roi'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd ar waith er mwyn galluogi sefydliadau'r GIG i ymbaratoi erbyn y daw'r dyletswyddau i rym.

Pan ddaw Deddf 2020 i rym, fe fydd hi hefyd yn sefydlu 'Corff Llais y Dinesydd' newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Amcan cyffredinol Corff Llais y Dinesydd yw cynrychioli buddiannau'r cyhoedd mewn materion yn ymwneud â gwasanaethau iechyd a chymdeithasol. Ymhellach, bydd modd i Gorff Llais y Dinesydd gyflwyno sylwadau i sefydliadau'r GIG ac awdurdodau lleol ynghylch materion o'r fath, a gosodir dyletswyddau cydweithredu ar sefydliadau'r GIG, awdurdodau lleol a Chorff Llais y Dinesydd o dan y Ddeddf. Rhagwelwn y bydd Corff Llais y Dinesydd yn datblygu perthynas weithio agos â'r GIG ac awdurdodau lleol. Bydd yn ffynhonnell ddefnyddiol dros ben ar gyfer cael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd ehangach. Ein dyhead yw y bydd arweinwyr y GIG yn ystyried Corff Llais y Dinesydd fel ffynhonnell wybodaeth a chyngor ynglŷn â barn pobl am wasanaethau iechyd ar lefel genedlaethol a lleol. Fel Corff sy'n cyflawni swyddogaethau ar draws gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, mae hefyd yn helpu i wireddu argymhellion yr Adolygiad Seneddol o lechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ochr yn ochr ag ymgysylltu mwy integredig â dinasyddion.

Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod bod galluogi pobl i ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol o safbwynt ansawdd gofal, ac mae'n helpu i sicrhau diogelwch, urddas a phrofiad siaradwyr Cymraeg. Bydd y camau gweithredu a ddisgrifir yn y fframwaith hwn yn cael eu datblygu yn unol â'r egwyddor hon a'r fframwaith Mwy na geiriau.

2. System o ansawdd

2.1 Beth yw ansawdd da?

Mae yna amryfal ffyrdd o ddisgrifio ansawdd mewn gofal iechyd. Ym 1999, fe wnaeth y Sefydliad Meddyginiaethau, fel yr oedd ar y pryd, fynd ati i ddisgrifio chwe nodwedd sy'n perthyn i ansawdd:

- Diogel – osgoi niwed
- Effeithiol – priodol a seiliedig ar dystiolaeth
- Canolbwyntio ar yr unigolyn – llawn parch ac yn ymateb i anghenion a dymuniadau unigolion
- Amserol – ar yr amser iawn
- Effeithlon – osgoi gwastraff
- Teg – siawns gyfartal o gael yr un canlyniad, ni waeth be fo'r lleoliad, statws economaidd-gymdeithasol ac ati.

Mae'r nodweddion ansawdd hyn yn cyd-fynd â'n hegwyddorion iechyd a gofal darbodus:

- Cyflawni iechyd a lles gyda'r cyhoedd, cleifion a gweithwyr proffesiynol yn bartneriaid cyfartal yn y broses trwy gyd-gynhyrchu (canolbwyntio ar unigolion)

- Gofalu am y rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf yn gyntaf, gan wneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r holl sgiliau ac adnoddau (amserol, effeithlon, effeithiol)
- Gwneud dim ond yr hyn sydd angen ei wneud, dim mwy, dim llai (diogel, effeithlon)
- Lleihau amrywiadau amhriodol gan ddefnyddio arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn modd cyson a thryloyw (teg, effeithiol, effeithlon)

Rydym yn datblygu iechyd a gofal darbodus trwy'r cysyniad Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werthoedd, er mwyn sicrhau y bydd gofal o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu a hefyd er mwyn sicrhau y bydd modd iddo fod mor effeithiol â phosibl i bob unigolyn.

2.2 Diogelwch

2.2.1 Diogelwch Cleifion

Un maes ansawdd sy'n taro tant arbennig gyda'r cyhoedd a'r staff yw diogelwch cleifion. Mae nifer o systemau iechyd yn canolbwyntio'n gyfan gwbl ar hyn. Mae gan y GIG yng Nghymru ymrwymiad hirsefydlog i ddiogelwch, ers y rhaglen 1000 o Fwydau a fu ar waith rhwng 2008 a 2010. Mae'r ymrwymiad hwnnw i'w weld o hyd yn nifer o'n prosesau a'n harferion, yn cynnwys adolygiadau marwolaethau, cofnodi digwyddiadau cenedlaethol a nifer o raglenni parhaus yn cynnwys, er enghraifft, rhaglenni'n ymwneud ag anaf aciwt i'r arennau, cysylltwyr niwro-echelinol a diogelwch meddyginiaethau.

Mae modd archwilio diogelwch cleifion mewn dwy ffordd gyffredinol. Mae Diogelwch I yn disgrifio'r dull traddodiadol lle caiff diogelwch ei ystyried fel 'absenoldeb gweithredoedd anniogel'. Mewn gofal iechyd, mae dull Diogelwch I wedi arwain at ganolbwyntio ar y lleiafrif o ddigwyddiadau mewn gofal lle mae rhywbeth wedi mynd o'i le. Yng Nghymru, rydym eisiau symud tuag at ddull Diogelwch II, lle caiff diogelwch ei ystyried fel 'rhywbeth sy'n digwydd pan aiff pethau'n iawn'. Bydd dull Diogelwch II yn annog mwy o ystyried a dysgu ar sail yr hyn sydd wedi mynd yn dda yn ogystal â'r hyn sydd wedi mynd o'i le, gan gynnig golwg fwy cyfannol ar ddiogelwch. Bob diwrnod, er gwaethaf amgylcheddau cymhleth, pwysau staffio a thystiolaeth newidiol a thriniaethau newydd, mae staff y GIG yn addasu er mwyn darparu gofal gwyach. Mae hi'n bwysig deall sut maent yn gallu goresgyn y materion hyn, fel y gellir dathlu'r gamp honno a lledaenu'r hyn a ddysgir.

Agwedd arall ar ddiogelwch cleifion yw niwed i gleifion, nid oherwydd ymyriadau gofal iechyd ond oherwydd diffyg triniaeth – niwed trwy anweithred. Fel y nodwyd eisoes, bu'n rhaid atal nifer o wasanaethau rheolaidd yn ystod y pandemig er mwyn rhoi blaenoriaeth i ddarparu gofal aciwt i bobl â COVID-19. Fodd bynnag, efallai y bydd y boblogaeth yn dioddef niwed os na chaiff y gwasanaethau hyn eu hailddechrau. Cafodd Gwasanaethau Hanfodol, a ddisgrifir fel gwasanaethau ar gyfer cyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd neu sy'n effeithio ar fywyd, eu cynnal yn ystod y pandemig. Mae'r fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer gwasanaethau hanfodol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar yr angen am atebolrwydd lleol, trefniadau llywodraethu, canllawiau a sicrwydd seiliedig ar dystiolaeth.

Mae cofnodi digwyddiadau ac ymchwilio i ddigwyddiadau yn bwysig o ran newid diwylliant, tryloywder a rhannu'r hyn a ddysgir ar ôl i niwed ddigwydd. Mae fframwaith cyfredol Cymru ar gyfer cofnodi digwyddiadau'n cael ei adolygu ar hyn o bryd er mwyn sicrhau y bydd yn helpu i ddatblygu'r meysydd hynny, yn creu ffofws ar gamau y gellir eu cymryd yn syth i sicrhau diogelwch, yn ysgogi gwelliannau ac yn cyd-fynd â'r ddyletswydd gonestrwydd. Er mwyn i'r ymchwiliadau esgor ar yr effaith fwyaf a llwyddo i ganfod problemau yn y system, rhaid iddynt gael eu targedu. Gall achosion yn y system gofal iechyd ddigwydd yn unrhyw le yng Nghymru, a rhaid canolbwyntio'n ddiysgog ar rannu'r dysgu sy'n digwydd ledled Cymru, gyda'r nod o wneud gofal mor ddiogel â phosibl. Rhaid i'r fframwaith newydd ein galluogi i ddysgu yn sgil digwyddiadau Diogelwch I a Diogelwch II.

Cam Gweithredu 4: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith Cofnodi Digwyddiadau Cenedlaethol newydd sy'n canolbwyntio ar gynyddu a rhannu'r hyn a ddysgir yn sgil digwyddiadau.

Yng Nghymru, mae adolygu marwolaethau wedi bod yn orfodol ers 2013 yn achos marwolaethau mewn ysbytai, ac mae'r adolygiadau hyn wedi bod yn hollbwysig o ran cadarnhau meysydd pwysig ar gyfer gwelliant parhaus, yn cynnwys sepsis ac adnabod cleifion gwael. Erbyn hyn, mae gwasanaeth archwilwyr meddygol yn cael ei roi ar waith ledled Cymru, gydag ymrwymiad i wella diogelwch cleifion a gofal diwedd oes. Mae archwilwyr meddygol yn craffu'n annibynnol ar yr holl farwolaethau nad yw'r crwner yn ymchwilio iddynt. Mae gwaith craffu'r archwilwyr meddygol yn cynnwys gofyn i anwyliaid yr unigolyn a oes ganddynt unrhyw bryderon. Pan fydd y gwasanaeth archwilwyr meddygol yn dod o hyd i broblemau posibl yn ymwneud â gofal y claf, byddant yn tynnu sylw sefydliadau'r GIG atynt fel y gellir eu hadolygu. Bydd y broses hon yn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi'i ddatblygu gydag adolygiadau marwolaethau yng Nghymru ac yn tynnu sylw at feysydd dysgu.

Cam Gweithredu 5: Dylid mynd i'r afael â gwaith cenedlaethol i ddatblygu fframwaith 'dysgu o farwolaethau', gan adeiladu ar y gwaith parhaus o gyflwyno'r Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol drwy'r wlad ynghyd â'r prosesau sydd eisoes ar waith ar gyfer adolygu marwolaethau.

2.2.2 Diogelwch Systemau

Mae hi'n bwysig hefyd inni ddysgu yn sgil materion penodol a ddaw i'r amlwg yn ymwneud â diogelwch a gofal cleifion. Yn 2020, fe wnaeth [First Do No Harm: The report from the Independent Medicines and Medical Devices Safety Review](#) ystyried y defnydd o rwyllau pelfis a sodiwm falproad, a'r niwed a achoswyd i fenywod a phlant o ganlyniad i'r ymyriadau hyn. Roedd yr adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar y defnydd o'r ymyriadau hyn yn Lloegr, ond gall y GIG yng Nghymru ddysgu gwersi gwerthfawr yn ei sgil. Mae wedi tynnu sylw at y ffaith na wnaeth y system gofal iechyd yn ei chyfarwydd ymateb yn ddigon cyflym i wrando ar y pryderon a fynegwyd gan gleifion a gweithredu yn gynt.

Mae gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol yn enghraifft o systemau lle mae angen dull strategol pan ddaw hi'n fater o ddiogelwch, a lle mae angen gwneud y gorau o'r gwersi a ddysgir ar lefel Cymru gyfan pan fo niwed wedi digwydd a phan

nodir fod angen gwelliannau. Rydym eisiau adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd trwy Gymru gyfan eisoes yn dilyn adolygiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd o wasanaethau mamolaeth yn hen Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac adolygiadau eraill o'r fath a gynhaliwyd yn y DU, a hynny er mwyn sicrhau bod gwelliannau cyson a pharhaus yn cael eu cyflwyno a'u cynnal.

Cam Gweithredu 6: Dylid mynd i'r afael â gwaith cenedlaethol i arwain dull gwella Cymru gyfan er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ddysgu yn sgil adolygiadau annibynnol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Bydd gweithredu'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd newydd, ynghyd â Chorff Llais y Dinesydd, yn cryfhau'n fawr y dulliau sydd gennym o fewn ein systemau ar gyfer sicrhau na fydd profiadau anodd o'r fath yn cael eu hailadrodd, yn enwedig o ran pa mor hollbwysig yw hi inni wrando ar gleifion, eu teuluoedd a'r staff pan aiff pethau o'u lle.

Mae angen i ddiogelwch ym maes gofal iechyd fynd y tu hwnt i ddiogelwch cleifion unigol ac ystyried diogelwch ein systemau. Wrth i'r gwasanaethau esblygu y tu hwnt i ffiniau sefydliadol i greu systemau gofal iechyd, rhaid inni sicrhau bod y systemau cyfan hyn yn ddiogel. Mae angen cymhwyso'r cysyniad Diogelwch I / Diogelwch II at systemau yn eu cyfanrwydd, gan fyfyrion ar yr hyn y gallwn ei ddysgu gan systemau diogel a chymhwyso'r dysgu hwnnw at bob un o'n systemau. Hefyd, mae angen inni ystyried meysydd megis sicrhau bod y dyfeisiau meddygol a ddefnyddir yn ddiogel, a phan fo yna bryderon, sicrhau bod y pryderon hyn yn cael eu huwchgyfeirio i'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Mae angen inni fuddsoddi mewn systemau electronig a all sicrhau ymarfer cyson. Hefyd, mae angen inni fonitro'r defnydd a wneir o'r systemau hyn a mesur canlyniadau ymyriadau clinigol, yn cynnwys mewnblannu dyfeisiau. Mae'r systemau electronig hyn yn cynnwys rhai fel systemau rhagnodi electronig.

Cam Gweithredu 7: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau'r GIG i roi systemau electronig anhepgor ar waith i ategu gofal diogel, megis Systemau Electronig ar gyfer Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau, Sganio er Diogelwch a'r System Wybodaeth ar gyfer Dyfeisiau Meddygol.

3. Y Cylch Ansawdd

3.1 Y Cylch Ansawdd – System rheoli ansawdd

Mae pobl angen i wasanaethau cyhoeddus gael eu trefnu o amgylch eu hanghenion a'u profiadau. Mae angen i'r diwylliant yn y gwasanaethau hyn fod yn agored ac yn gefnogol ac ennyn ymddiriedaeth, ac mae angen i brosesau cynllunio, gwella a mesur fod yn gysylltiedig a chanolbwyntio ar ansawdd a dysgu. Rhaid i'r elfennau sy'n perthyn i'r cylch gwella fod yn asgwrn cefn i'r sefydliad, a chael eu hysgogi o'r brig. Mae hi'n hanfodol i sefydliadau greu'r amodau ar gyfer hyn, trwy weledigaeth glir ac arweinyddiaeth gref.


Rhaid i'r bwrdd ysgogi system rheoli ansawdd effeithiol trwy'r holl sefydliad. Pan fydd methiannau mewn gwasanaethau megis mamolaeth neu ofal pobl eiddil oedrannus, fel arfer mae yna wendid sefydliadol ehangach, yng Nghymru fel mewn mannau eraill.

Ar draws y byd, mae yna bryder y gall byrddau roi blaenoriaeth i gyllid a pherfformiad uwchlaw ansawdd. Mae'r elfennau hyn yn haws eu monitro a'u defnyddio mewn trafodaethau atebolrwydd, ond mae modd iddynt gael eu cyflawni ar draul ansawdd.

Gall byrddau sefydliadau fod wedi cyrraedd cyfnodau aeddfedrwydd gwahanol yn eu dull o lywodraethu gwelliannau. Mae sefydliadau a chanddynt lefelau aeddfedrwydd uchel o ran ansawdd yn tueddu i roi blaenoriaeth i wella ansawdd gyda ffocws hirdymor, ac yn tueddu i ddefnyddio data er budd gwelliannau, nid er budd sicrwydd neu reolaeth yn unig, yn ogystal â chynnwys staff a chleifion yn y dasg o wella ansawdd gyda diwylliant agored o welliant parhaus ac arweinyddiaeth glinigol wirioneddol.

Mae Gwella Ansawdd yn gysyniad cyffredin a drafodir mewn gofal iechyd, ond mae angen iddo fod yn rhan o broses fwy – sef System Rheoli Ansawdd.

Ffig 1



Mae angen i'r cylch ansawdd hwn fod yn gyflawn ac yn gysylltiedig ar lefel leol, lefel ranbarthol a lefel genedlaethol er mwyn galluogi ac ysgogi'r gwelliant mwyaf. Rhaid i bawb ddeall eu rôl yn y system ansawdd hon. Rhaid i'r staff, yn ogystal â'r cyhoedd a'r cleifion, allu cyfrannu at bob rhan o'r cylch, trwy gydgyllunio a chyd-gynhyrchu, er mwyn sicrhau bod y camau gweithredu'n berthnasol ac yn ystyrlon i'r rhai sy'n gorfod elwa.

Mae dysgu parhaus yn ganolog i'r system rheoli ansawdd. Nid digon yw ailadrodd y cylch yn unig; bob tro rhaid inni fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd o'r tro blaenorol, gan gywain gwybodaeth o bob ffynhonnell a gwella'r broses.

3.2 Cynllunio Ansawdd

System gofal iechyd wedi'i gynllunio yw'r GIG yng Nghymru. Rhaid i sefydliadau gynllunio i wella iechyd y boblogaeth a wasanaethant. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn dechrau gyda'r elfen fwyaf hanfodol, sef atal, er mwyn cadw pobl yn iach ac yn eu cartrefi pa bryd bynnag y bo modd ac, yn y pen draw, er mwyn gwella canlyniadau iechyd i'r boblogaeth i gyd. Mae angen cael gwybodaeth amserol o ansawdd da er mwyn gweld ble mae angen cyflwyno gwelliannau ar bob lefel yn ein systemau; mae hyn yn cynnwys barn y staff a'r cleifion. Mae'r ddyletswydd ansawdd hefyd yn pennu'r disgwyliad hwn, a bydd angen i'r adroddiadau blynyddol sefydliadol gadarnhau sut caiff gwelliannau mewn ansawdd eu gwireddu.

Cyn y pandemig COVID-19, roedd hi'n ofynnol i fyrdau iechyd fynd ati'n flynyddol i gyflwyno'u Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer y tair blynedd ganlynol i Lywodraeth Cymru, er mwyn cael cymeradwyaeth Gweinidogol. Yn ystod y pandemig, newidiodd gwaith cynllunio'r GIG gyda ffocws mwy uniongyrchol ar leihau niwed ac ymateb i COVID-19. Dros dro, cafodd Cynlluniau Tymor Canolig Integredig eu disodli gan broses gynllunio chwarterol. Erys GIG Cymru yn system gofal wedi'i gynllunio, ond rhaid i'r broses hon fod yn un ddynamig. Wrth i waith cynllunio tymor hwy, yn cynnwys prosesau Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, ailddechrau, dylai sefydliadau'r GIG adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'u profiad o'r pandemig, er mwyn gwella'u gwaith cynllunio, a sicrhau y bydd ansawdd yn parhau i fod yn hanfodol ym mhopeth a wnânt.

Mae sefydliadau'r GIG yn parhau i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio fel cyd-destun ar gyfer eu gwaith cynllunio. Fe fydd hyn yn sicrhau y bydd y modd mae sefydliadau'n gweithio, pwy fyddant yn ei gynnwys, a pha benderfyniadau a wneir, yn esgor ar effaith gadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol. Rhaid i ansawdd fod yn ganolog i'r penderfyniadau hyn bob amser.

Mae Cymru'n wlad ddwyieithog ac mae'n hollbwysig i'n gwasanaethau iechyd adlewyrchu hyn a datblygu gyda'r egwyddor honno mewn cof. Dylai pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth iechyd a'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth allu cyfathrebu yn Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Cam Gweithredu 8: Dylai sefydliadau'r GIG ddangos trwy gyfrwng eu cynlluniau fod gofal a phrofiad cleifion yn ganolog i'w dull a'u prosesau cyflawni, a bod eu trefniadau llywodraethu'n ategu'r gofyniad hwn.

3.3 Gwella Ansawdd

Ceir tystiolaeth fyd-eang ynglŷn â sut i gefnogi gwelliannau, a rhaid i sefydliadau'r GIG sicrhau bod gan eu staff y sgiliau iawn, y cymorth iawn a'r caniatâd iawn i gyflwyno gwelliannau yn eu gwaith beunyddiol, a bod modd iddynt godi llais pan fydd meysydd i'w gwella y tu hwnt i'w rôl neu eu harbenigedd. Nid digon yw addysgu'r ddamcaniaeth wella i'r gweithlu; mae'r gweithlu angen y gallu i gyflwyno gwelliannau a gwneud hynny yn eu gwaith beunyddiol. Yn yr un modd, os mai'r nod yw esgor ar newid gwirioneddol drawsnewidiol trwy'r holl sefydliad, rhaid i welliannau rheng flaen

gael eu cydbwysu â nifer o welliannau strategol cynlluniedig sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau'r sefydliadau.

Mae'r Sefydliad Iechyd wedi nodi'r angen am ddull sefydliadol o ymdrin â gwella ansawdd. Heb arweinyddiaeth ar lefel y bwrdd, ni fydd gwelliannau yn y system yn llwyddo. Mae hi'n hollbwysig creu'r amodau iawn ar gyfer gwella ansawdd ar bob lefel yn y sefydliad.

Fodd bynnag, efallai na fydd sefydliadau'n hollol gymwys eto i gyflwyno gwelliannau. Rhaid cael cysylltiad cryf rhwng timau cynllunio, mesur a gwella. Mae yna feysydd lle caiff newid effeithiol ei gyflawni, ac mae angen inni ganolbwyntio ar ehangu newid effeithiol ledled Cymru a sicrhau bod pobl yn cael gofal teg.

Mewn ymateb i Cymru Iachach, mae Gwelliant Cymru, sef ein gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer cefnogi gwelliannau, yn newid er mwyn cefnogi'r cylch ansawdd ar draws sefydliadau, gan ddefnyddio dull cyson i ledaenu gwelliannau a dysgu. Yn Cymru Iachach, nodir chwe maes allweddol ar gyfer gwella, sef: rheoli meddyginiaethau; llwybrau llawdriniaeth; gofal pobl eiddil oedrannus; salwch aciwt; gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol teg; a gofal diwedd oes. Er bod ymateb i'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y cynlluniau hyn, erys y meysydd yn berthnasol ac yn ganolbwynt i Gwelliant Cymru wrth inni ddechrau adfer ar ôl COVID.

Mae angen cynnwys ymddygiadau a sgiliau gwella yng ngwaith pawb sy'n gweithio yn y maes gofal iechyd, er mwyn i'r diwylliant ddatblygu'n ddiwylliant sy'n cynnwys her bersonol a chadarnhaol barhaus o ran sut gallwn wneud pethau'n well. Mae'r profiad personol boddhaol sy'n perthyn i arwain gwelliannau yn meithrin hyder ac yn dechrau creu arweinwyr y dyfodol.

Cam Gweithredu 9: Dylai sefydliadau gofal iechyd sicrhau bod ganddynt y capasiti a'r gallu i wella a dysgu'n barhaus.

3.4 Rheoli Ansawdd

Mae rheoli ansawdd yn digwydd ar reng flaen ein gwasanaethau. Mae angen i bobl sy'n darparu gwasanaethau gytuno ar yr ansawdd y dymunant ei gyrraedd yn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, ynghyd â chynnal a monitro'r ansawdd hwnnw. Hefyd, mae angen iddynt allu canfod achosion pan fydd yr ansawdd hwnnw'n amrywio o'r hyn a ddymunir, ac ymateb i hynny. Mae angen i sefydliadau greu prosesau a diwylliant a fydd yn galluogi'u staff i reoli a safoni eu gwaith beunyddiol. Rhaid galluogi hyn drwy edrych ar y sefydliad o safbwynt systemau, a rhaid cael cyfathrebu a mesurau clir a chyson trwy'r holl sefydliad.

3.5 Sicrhau ansawdd

Mae sicrhau ansawdd yn hanfodol er mwyn i fyrddau sefydliadau ddeall ansawdd y gwasanaethau a ddarperir, yn cynnwys gwasanaethau a gomisiynir gan eraill, gweld sut mae'n cymharu ag eraill, a sicrhau bod gwaith gwella (os pennwyd gwaith o'r fath) yn gwneud gwahaniaeth. Gall dull systematig o gynllunio ansawdd, gwella

ansawdd a rheoli ansawdd ddarparu hyn. Yn ogystal â'r rhifau, mae angen i'r broses sicrhau ansawdd gynnwys 'gwybodaeth ansoddol', fel profiadau staff, cleifion a gofalwyr, oherwydd mae'r rhain yn aml yn tynnu sylw at broblemau cyn i'r gwaith mesur wneud hynny. Mae'r [Fframwaith Sicrhau Profiadau Defnyddwyr Gwasanaethau](#) yn nodi amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio.

Felly, mae nifer o ffactorau'n cyfrannu at sicrhau ansawdd, yn cynnwys adborth, pryderon a chanmoliaeth cleifion / defnyddwyr, dysgu yn sgil marwolaethau, digwyddiadau yn cynnwys cofnodi digwyddiadau difrifol, archwiliadau clinigol, a dangosyddion ansawdd a meincnodi. Rydym angen system sicrhau ansawdd sy'n dwyn ynghyd wybodaeth am bob agwedd ar y cylch rheoli ansawdd fel y gallwn gael darlun cydlynol o ansawdd y gofal a ddarperir gan sefydliadau.

Er bod gan reoleiddwyr ac arolygwyr ran hollbwysig yn y dasg o sicrhau ansawdd, nid ydynt yn disodli'r angen am fframwaith sicrhau sefydliadol cryf.

Cam Gweithredu 10: Dylid mynd i'r afael â gwaith cenedlaethol ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd er mwyn helpu i grynhoi holl elfennau system rheoli ansawdd. Bydd hyn yn cynnwys diweddarau'r Fframwaith Sicrhau Profiadau Defnyddwyr Gwasanaethau, a bydd yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.

3.6 Gwybodaeth drwy gydol y cylch ansawdd

Mae gwybodaeth yn hanfodol i brosesau gwella a sicrhau, a dylai gwybodaeth fod yn gyson ac ar gael yn eang. Mae data amserol yn hollbwysig ar gyfer deall beth sy'n digwydd mewn sefydliadau ar unrhyw adeg, a hefyd ar gyfer ystyried canlyniadau, pennu meysydd i'w gwella a meincnodi. Rhaid i sefydliadau fod yn dryloyw pan ddaw hi'n fater o ddata a rhannu hyn ledled Cymru, gan anelu at wneud gofal yn deg. Bydd yr Adnodd Data Cenedlaethol, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yn helpu yn hyn o beth.

Mewn gofal iechyd, caiff gwerth ei wireddu pan fyddwn yn llwyddo i gyflawni'r canlyniadau gofal iechyd gorau posibl ar gyfer ein poblogaeth gyda'r adnoddau sydd gennym wrth law. Dylai'r canlyniadau hyn fod cystal â'r rhai gorau yn y byd, ac eisoes mae Gofal Iechyd Darbodus wedi cynnig sylfaen gref ar gyfer gwella gofal iechyd yng Nghymru. Er mwyn gwireddu gwerth mewn gofal iechyd mae angen gwella'r modd y caiff data canlyniadau ei adrodd a'i gasglu fel y gellir ceisio deall pa ymyriadau sy'n cynnig y gwerth gorau i bobl a ble mae amrywio anesgusodol yn bodoli. Mae hi'n hanfodol inni ddarparu gofal teg sy'n defnyddio dull seiliedig ar dystiolaeth, gan roi canllawiau NICE ar waith er mwyn helpu i sicrhau gofal uchel ei werth.

Mae newidiadau mewn iechyd yn gerrig milltir pwysig ym mywydau cleifion a dylem ddefnyddio Dulliau Mesur Canlyniadau a Gofnodir gan y Claf (PROMs) i'w mesur. Gall hyn ein helpu i asesu a diwallu anghenion cleifion, a deall eu profiad o ofal, a gwella gwasanaethau.

Mae System Rheoli Pryderon Unwaith i Gymru (OfWCMS) yn ddull newydd a ddefnyddir gan sefydliadau'r GIG yng Nghymru i adrodd, cofnodi, dysgu a monitro

gwelliannau mewn modd cyson yn dilyn digwyddiadau, cwynion, hawliadau ac achosion anffafriol eraill sy'n digwydd mewn gofal iechyd. Trwy ddwyn y data hanfodol hwn i gyd at ei gilydd, mae yna gyfle i gael plattform a fydd yn galluogi dysgu ar y cyd ac a fydd yn helpu i wella diogelwch cleifion yn ogystal â phrofiad cleifion. Er mai dyddiau cynnar yw hi, mae yna bosibilrwydd y bydd modd i sefydliadau iechyd ddefnyddio data gan OfWCMS fel rhan o'u gwybodaeth reoli gyffredinol ynglŷn ag ansawdd, gan bennu meysydd y mae angen cyflwyno gwelliannau ynddynt a helpu i newid y diwylliant.

Mae angen inni ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael inni ar draws pob agwedd ar ein systemau rheoli ansawdd i fesur ansawdd gofal a chanlyniadau gofal. Gellir ei defnyddio'n lleol ac yn genedlaethol, a bydd modd iddi lywio fframwaith ar gyfer mesur a meincnodi. Rhaid rhoi'r un pwysigrwydd i fesurau ansawdd ag a roddir i fesurau perfformiad a mesurau cyllid, os nad mwy.

Cam Gweithredu 11: Dylid gwneud gwaith yn genedlaethol ac yn lleol i ddatblygu fframwaith mesur ar gyfer llywio system rheoli ansawdd, a ategir gan well gwybodaeth am ansawdd gofal.

3.7 Sicrhau bod system rheoli ansawdd sefydliadol effeithiol ar waith

Mae'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI) wedi disgrifio fframwaith ar gyfer llywodraethau ansawdd yn effeithiol. Ni welodd y Sefydliad fawr ddim tystiolaeth fod aelodau annibynnol wedi cael eu haddysgu sut i reoli ansawdd yn effeithiol, a phan oedd addysg o'r fath yn bodoli, yn aml roedd yn canolbwyntio ar ddiogelwch cleifion (un elfen yn unig o blith chwe elfen ansawdd gofal iechyd) a hefyd ar ysbysai, yn hytrach nag ar iechyd y gymuned a'r boblogaeth. Er bod y gwaith ymchwil hwn wedi'i seilio ar system gofal iechyd America, mae'n debygol y byddai modd dod o hyd i faterion tebyg yn y GIG.

Dylai sefydliadau'r GIG adolygu'r systemau rheoli ansawdd sydd ganddynt ar hyn o bryd, ac ystyried beth yw eu sefyllfa, a ble mae angen iddynt ddatblygu, er mwyn sicrhau bod eu system rheoli ansawdd mor effeithiol â phosibl.

Cam Gweithredu 12: Dylai sefydliadau'r GIG adolygu ac ystyried yr elfennau y mae angen iddynt fod ar waith er mwyn datblygu system rheoli ansawdd gwbl weithredol, yn cynnwys sicrhau bod y Bwrdd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol i arwain y system yn effeithiol.

Cam Gweithredu 13: Dylid gwneud gwaith cenedlaethol i ddatblygu pecyn cymorth y gall sefydliadau ei ddefnyddio i gael sicrwydd ynglŷn â System Rheoli Ansawdd effeithiol.

4. Gwerthoedd, diwylliant ac arweinyddiaeth

Er mwyn cael system seiliedig ar ansawdd, mae angen i GIG Cymru sicrhau bod y gwerthoedd iawn yn sail i'r sefydliad, a bod diwylliant teg ac arweinyddiaeth dosturiol. Mae angen i GIG Cymru wrando'n weithredol er mwyn deall yn iawn beth yw barn ei staff, y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, a gwneud y gwrando gweithredol hwn yn rhan annatod o'r cylch ansawdd. Mae angen i aelodau'r Bwrdd fod â phresenoldeb yn y gymuned ac mewn ysbytai. Rhaid iddynt fod yn barod i herio ac annog adborth agored gan ddinasyddion ac aelodau o staff ynghylch sut gellir gwella gofal.

Rhaid i arweinwyr ganolbwyntio'n ddiwyro ar bwrpas, gwerthoedd ac ansawdd cyffredin, gan wella'n barhaus a dangos tosturi tuag at bawb. Gall arweinyddiaeth dosturiol – arweinyddiaeth dosturiol ar gyfer gwasanaethau iechyd tosturiol – gynnwys rhoi sylw (i staff); deall (canfod dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa); dangos empathi; a helpu (cymryd camau craff er mwyn helpu).

Mae [Arweinyddiaeth Dosturiol](#) wedi bod yn hollbwysig yn ystod y pandemig. Mae gweithwyr gofal iechyd wedi wynebu pwysau na welwyd mo'i debyg erioed o'r blaen, o ran y perygl a'r ofn o ddal COVID-19 yn y gweithle ond hefyd o ran y dymuniad i gynnig y gofal gorau posibl i gleifion mewn amgylchiadau anodd. Nid yw arweinyddiaeth gref erioed wedi bod yn bwysicach, ac yn awr mae angen parhau â'r arweinyddiaeth hon, gan gael pawb i gyfrannu ati.

Mae diwylliant agored o ddysgu a gwella yn hanfodol. Mae angen inni ddathlu'r pethau a aiff yn dda a chydabod y gofal a'r gwasanaethau gwirioneddol anhygoel y mae holl staff gofal iechyd Cymru yn eu darparu.

Fodd bynnag, pan fydd rhywbeth yn methu neu'n mynd o'i le, rhaid i'r staff deimlo'n ddiogel, teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, a theimlo bod modd iddynt gael dweud eu dweud ynglŷn â'r mater, gan fod yn hyderus y bydd rhywun yn gwrando arnynt. Os crybwyllir pryderon ynglŷn ag ansawdd gofal, mae angen i rywun wrando arnynt, eu cydnabod, a gweithredu yn eu cylch. Mae angen i staff y GIG wybod bod pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif – yn wir, cânt eu croesawu. Pan fo sefydliad yn agored ac yn onest, mae'r staff yn teimlo bod modd iddynt grybwyll pryderon a rhoi camau gwella ar waith. Nid oes yr un gwasanaeth iechyd yn berffaith, a rhaid cydnabod hyn er mwyn teimlo'n hyderus mewn gwasanaeth sy'n gwella'n barhaus. Bydd cyflwyno'r ddyletswydd gonestrwydd yn ategu hyn.

Pan fydd camgymeriadau'n digwydd, dylid ymchwilio iddynt er mwyn deall sut methodd y system, gan gymryd camau'n ddi-oed i rwystro'r perygl rhag digwydd eto. Ni ddylai'r dull hwn fynd ati i fwrw bai. Hyd yn oed os mai camgymeriad gan unigolyn a arweiniodd at y cam allweddol, bydd amryfal gamau wedi cyfrannu ato, a rhaid deall y rhain. Mae angen rhoi cymorth digonol i'r claf a'i anwyliad, ond hefyd i'r staff dan sylw er mwyn iddynt wybod eu bod yn parhau i gael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi trwy unrhyw ymchwiliad. Mae amgylchedd cosbol yn rhwystr pwerus i fyfyrion teg a dilys. Mae diwylliant teg sy'n dysgu yn cydbwysu tegwch, cyfiawnder a dysgu gyda chyfrifoldeb ac atebolrwydd.

Ymhellach, mae angen annog cleifion i godi llais pan aiff pethau o'u lle, gan wybod y bydd rhywun yn gwrando ar eu pryderon a'u profiadau yn hytrach na'u diystyru. Mae hyn yn hanfodol mewn system sy'n dysgu yng ngwir ystyr y gair.

Mae angen i'r gweithlu cyfan gyfrannu' llawn at yr angen i wella. Mae lles personol yn un o'r gofynion sylfaenol yn hyn o beth. Os bydd aelodau o staff wedi ymlâdd neu wedi ymddieithrio oddi wrth y sefydliad, yn anochel fe fydd y dasg o wella'r gwasanaeth yn llithro; ond os rhoddir blaenoriaeth i les, bydd gofal cleifion yn fwy diogel ac yn cyrraedd ansawdd gwell, a bydd y gwasanaeth yn gwella'n barhaus.

Bydd gweithredu'r pwyntiau a nodir yn strategaeth gweithlu AaGIC, [Cymru Iachach: Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#), yn helpu sefydliadau i ymdrin â phrinder staff trwy wella'u gallu i ddal gafael ar eu staff a hefyd trwy wella'r broses recriwtio. Nod y Strategaeth yw cyfoethogi lles a phrofiad gweithio'r rhai sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, yn cynnwys gwirfoddolwyr a gofalwyr, a hyrwyddo iechyd a gofal cymdeithasol fel y sector o ddewis i weithlu'r dyfodol. Y nod cyffredinol ar gyfer 2030 yw darparu'r nifer priodol o bobl fedrus, ddynamig a llawn cymhelliant i helpu i ddiwallu anghenion gofal iechyd y boblogaeth a wasanaethant mewn modd cynaliadwy a chost-effeithiol.

Yn y pen draw, mae ansawdd yn fater i bawb, ac mae angen rhoi dull amlddisgyblaethol ar waith yn lleol ac yn genedlaethol. Rhaid ymwreiddio'r cysyniad hwn yn niwylliant ein gweithlu, gan ddeall a gwella ansawdd y gofal a ddarparwn.

Cam Gweithredu 14: Dylai sefydliadau iechyd ennyn diddordeb eu gweithlu yn yr agenda gofal a grymuso pawb i gymryd rhan er mwyn helpu i wneud y GIG yng Nghymru yn system sy'n cael ei harwain gan ansawdd.

5. Atebolrwydd

Er mwyn i'r GIG ddatblygu ar hyd ei siwrnai ansawdd, mae'n ofynnol cael atebolrwydd cryf ar gyfer pob agwedd ar y system rheoli ansawdd, yn ogystal â thrwy'r fframwaith sicrhau ansawdd, gan roi cymaint o sylw i ansawdd ag a roddir i berfformiad a chyllid. Bydd y strwythurau atebolrwydd yn cryfhau ar ôl creu swyddogaeth Gweithrediaeth y GIG, gan sicrhau y ceir ffocws cryf ar ansawdd bob amser.

Mae angen inni sicrhau y bydd unrhyw ddata a ddaw i law, boed hynny trwy archwiliadau clinigol, adolygiadau gan gymheiriaid neu gamgymeriadau mewn gofal iechyd, yn cael ei ddefnyddio i ysgogi newid er gwell. Mae angen dal y GIG i gyfrif er mwyn sicrhau bod newid yn digwydd ac y bydd data'n arwain at ganlyniadau ystyrlon a gwell i'n poblogaeth.

6. Edrych tua'r dyfodol

Mae angen i ansawdd fod yn fater i bawb gydag arweinyddiaeth gref trwy'r holl GIG yng Nghymru. Man cychwyn y cam nesaf ar y siwrnai ansawdd yw'r camau

gweithredu cyffredinol a nodir yn y fframwaith hwn, a bydd y dasg o weithredu'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd yn adeiladu ar y camau hyn ac yn helpu i sicrhau bod gennym system rheoli ansawdd effeithiol ar bob lefel yng Nghymru. Yn awr, mae angen i sefydliadau ystyried sut i weithredu a gwella'r system rheoli ansawdd, yn arbennig yng ngoleuni'r pandemig, a chyflymu ein siwrnai.

I hwyluso hyn, mae angen adolygu strwythurau sicrhau ansawdd cenedlaethol sydd eisoes yn bodoli er mwyn sicrhau bod dulliau cadarn ar gyfer llywodraethu ansawdd a diogelwch, ac er mwyn ysgogi'r GIG ar hyd ei siwrnai.

Cam Gweithredu 15: Bydd rhaglen Ansawdd a Diogelwch yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu cenedlaethol a nodir yn y Fframwaith hwn. Bydd Bwrdd Ansawdd a Diogelwch newydd, a hwylusir gan swyddogaeth Gweithrediaeth y GIG, yn goruchwyllo'r rhaglen hon. Bydd y bwrdd hwn yn mynd ati i ysgogi'r agenda ansawdd a diogelwch a bydd yn cael ei arwain mewn partneriaeth â'r GIG. Bydd ganddo ddull amlddisgyblaethol a bydd grwpiau proffesiynol gwahanol yn cymryd rhan ynddo.

Mae'r pandemig COVID-19 wedi dangos bod gennym wasanaeth iechyd anhygoel yng Nghymru, a gweithlu y gallwn ymfalchïo'n fawr ynddo. Mae llawer o heriau o'n blaenau o hyd. Bydd dull cenedlaethol o ymdrin â rheoli ansawdd, gydag ymrwymiad uwch dan y ddyletswydd ansawdd newydd, yn annog y GIG yng Nghymru ar hyd ei siwrnai tuag at ddod yn system sy'n wirioneddol seiliedig ar ansawdd, gan ddarparu'r gofal gorau i bobl Cymru.

Crynodeb o'r Camau Gweithredu

Cam Gweithredu 1: Dylai sefydliadau'r GIG sicrhau bod y niwed (uniongyrchol yn ogystal ag anuniongyrchol) sy'n gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 yn cael ei leihau. Dylai sefydliadau weithredu dull sy'n canolbwyntio ar risgiau a buddion wrth adfer gwasanaethau eraill, gan fesur, monitro a dysgu yn sgil unrhyw niwed.

Cam Gweithredu 2: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i adolygu a diweddarau'r safonau Iechyd a Gofal, gan adlewyrchu'r ddyletswydd ansawdd gryfach.

Cam Gweithredu 3: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid allweddol ar roi'r dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd ar waith er mwyn galluogi sefydliadau'r GIG i ymbaratoi erbyn y daw'r dyletswyddau i rym.

Cam Gweithredu 4: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu fframwaith Cofnodi Digwyddiadau Cenedlaethol newydd sy'n canolbwyntio ar gynyddu a rhannu'r hyn a ddysgir yn sgil digwyddiadau.

Cam Gweithredu 5: Dylid mynd i'r afael â gwaith cenedlaethol i ddatblygu fframwaith 'dysgu o farwolaethau', gan adeiladu ar y gwaith parhaus o gyflwyno'r Gwasanaeth Archwilwyr Meddygol drwy'r wlad ynghyd â'r prosesau sydd eisoes ar waith ar gyfer adolygu marwolaethau.

Cam Gweithredu 6: Dylid mynd i'r afael â gwaith cenedlaethol i arwain dull gwella Cymru gyfan er mwyn gwneud y gorau o'r cyfleoedd i ddysgu yn sgil adolygiadau annibynnol o wasanaethau mamolaeth a newyddenedigol.

Cam Gweithredu 7: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda sefydliadau'r GIG i roi systemau electronig anhepgor ar waith i ategu gofal diogel, megis Systemau Electronig ar gyfer Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau, Sganio er Diogelwch a'r System Wybodaeth ar gyfer Dyfeisiau Meddygol.

Cam Gweithredu 8: Dylai sefydliadau'r GIG ddangos trwy gyfrwng eu cynlluniau fod gofal a phrofiad cleifion yn ganolog i'w dull a'u prosesau cyflawni, a bod eu trefniadau llywodraethu'n ategu'r gofyniad hwn.

Cam Gweithredu 9: Dylai sefydliadau gofal iechyd sicrhau bod ganddynt y capasiti a'r gallu i wella a dysgu'n barhaus.

Cam Gweithredu 10: Dylid mynd i'r afael â gwaith cenedlaethol ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol i ddatblygu Fframwaith Sicrhau Ansawdd er mwyn helpu i grynhoi holl elfennau system rheoli ansawdd. Bydd hyn yn cynnwys diweddarau'r Fframwaith Sicrhau Profiadau Defnyddwyr Gwasanaethau, a bydd yn helpu i baratoi'r ffordd ar gyfer y dyletswyddau ansawdd a gonestrwydd.

Cam Gweithredu 11: Dylid gwneud gwaith yn genedlaethol ac yn lleol i ddatblygu fframwaith mesur ar gyfer llywio system rheoli ansawdd, a ategir gan well gwybodaeth am ansawdd gofal.

Cam Gweithredu 12: Dylai sefydliadau'r GIG adolygu ac ystyried yr elfennau y mae angen iddynt fod ar waith er mwyn datblygu system rheoli ansawdd gwbl weithredol, yn cynnwys sicrhau bod y Bwrdd yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth briodol i arwain y system yn effeithiol.

Cam Gweithredu 13: Dylid gwneud gwaith cenedlaethol i ddatblygu pecyn cymorth y gall sefydliadau ei ddefnyddio i gael sicrwydd ynglŷn â System Rheoli Ansawdd effeithiol.

Cam Gweithredu 14: Dylai sefydliadau iechyd ennyn diddordeb eu gweithlu yn yr agenda gofal a grymuso pawb i gymryd rhan er mwyn helpu i wneud y GIG yng Nghymru yn system sy'n cael ei harwain gan ansawdd.

Cam Gweithredu 15: Bydd rhaglen Ansawdd a Diogelwch yn cael ei sefydlu i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu cenedlaethol a nodir yn y Fframwaith hwn. Bydd Bwrdd Ansawdd a Diogelwch newydd, a hwylusir gan swyddogaeth Gweithrediaeth y GIG, yn goruchwyllo'r rhaglen hon. Bydd y bwrdd hwn yn mynd ati i ysgogi'r agenda ansawdd a diogelwch a bydd yn cael ei arwain mewn partneriaeth â'r GIG. Bydd ganddo ddull amlddisgyblaethol a bydd grwpiau proffesiynol gwahanol yn cymryd rhan ynddo.